

**2021 Rhif (Cy.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

Gorchymyn Cefnffordd yr A40  
(Cylchfan Pont Lesneven i  
Travellers Rest, Caerfyrddin, Sir  
Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau  
Cyflymder Dros Dro) 2021

*Gwnaed*

*24 Awst 2021*

*Yn dod i rym*

*1 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pont Lesneven i Travellers Rest, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2021.

**Dehongli**

**2. Yn y Gorchymyn hwn—**  
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2021 No. (W.)**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

The A40 Trunk Road (Pont  
Lesneven Roundabout to Travellers  
Rest, Carmarthen,  
Carmarthenshire) (Temporary  
Speed Restrictions) Order 2021

*Made*

*24 August 2021*

*Coming into force*

*1 September 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Pont Lesneven Roundabout to Travellers Rest, Carmarthen, Carmarthenshire) (Temporary Speed Restrictions) Order 2021 and this Order comes into force on 1 September 2021.

**Interpretation**

**2. In this Order—**  
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1); a
  - (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmyntion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
    - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
    - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;
- ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol; ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun; ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## Cymhwysyo

**5.—(1)** Nid yw'r cyfngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 06:00 hours on 1 September 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

## Application

**5.—(1)** The restrictions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

## Atal Dros Dro

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Awst 2021

## Suspension

**6.** Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 apply.

## Duration of this Order

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

## YR ATODLEN Terfyn cyflymder 30 mya neu 40 mya dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 1.70 cilometr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A40 Heol Llansteffan sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312 Heol Llansteffan hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr A40.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A40 Heol Llansteffan sy'n ymestyn o bwynt 215 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312 Heol Llansteffan hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A40 Heol Llansteffan sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40 hyd at bwynt 165 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312 Heol Llansteffan.

## SCHEDULE Temporary 30 mph or 40 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from its junction with the western side of the main circulatory carriageway of Pont Lesneven Roundabout to a point 1.70 kilometres west of that junction.

The length of the A40 Llanstephan Road eastbound entry slip road that extends from a point 75 metres from its junction with the B4312 Llanstephan Road to its junction with the main A40 eastbound carriageway.

The length of the A40 Llanstephan Road westbound entry slip road that extends from a point 215 metres from its junction with the B4312 Llanstephan Road to its junction with the main A40 westbound carriageway.

The length of the A40 Llanstephan Road westbound exit slip road that extends from its junction with the main A40 westbound carriageway to a point 165 metres from its junction with the B4312 Llanstephan Road.